# Manyleb cymhwyster

**NCFE CACHE Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru)**
**Rhif: 601/5370/2**

# Cynnwys

**Crynodeb o’r newidiadau** **4**

**Adran 1: Cyflwyniad cyffredinol** **5**

Gwybodaeth am y Fanyleb Cymhwyster 6
Sut mae’r cymhwyster yn gweithio 6
Cyfanswm Amser y Cymhwyster/Dysgu dan Arweiniad: Diffiniadau 7
Unedau gwaharddedig, unedau cywerth ac esemptiadau 7
Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol 7
Deall canlyniadau dysgu 8
Gwneud defnydd o’n gwefannau 9
Y Wefan Gyhoeddus 9
Gwefan Ddiogel i Ganolfannau 9
Llên-ladrad 10
Cyfleoedd cyfartal 10
Amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant 10

**Adran 2: Gwybodaeth am y cymhwyster hwn** **11**

Crynodeb o’r cymhwyster 12
Esboniad o dermau a ddefnyddir yn Lefel 5: (nid yw’r berfau i gyd yn cael eu defnyddio yn y cymhwyster hwn) 14

**Adran 3: Unedau** **17**

Log cyflawni unedau – Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch 18
Cynllun yr unedau 23
PW4-01: Deall yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n sail i ddarpariaeth gwaith chwarae 24
PW4-02: Deall sut i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc 27
PW5-01: Deall sut i ddatblygu, rheoli ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae 31
PW4-03: Deall sut i ddatblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc 35
PW4-04: Sefydlu a datblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc 39
PW5-06: Datblygu a rhoi gweithdrefnau ar waith i ddiogelu plant a phobl ifanc 43
SHC 53: Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 49
PW5-03: Gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae 52
AP 01: Defnyddio dull myfyriol i wella datblygiad proffesiynol 56
PW5-02: Deall sut i ymchwilio, dylunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig plant a phobl ifanc 58
PW5-04: Datblygu, rheoli ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae 62
ALLM4-01: Darparu gwybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau 67
PW3-20: Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd mewn amgylchedd chwarae 76
PW5-05: Ymchwilio, dylunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig plant a phobl ifanc 84
PW4-06: Cefnogi eraill i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu amgylcheddau chwarae 89
PW3-28: Darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr 96

PW3-29: Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain 105
SHC 32: Cymryd rhan mewn datblygiad personol mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol neu blant a phobl ifanc 113
ALLM5-02: Darparu arweinyddiaeth yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain 125
ALLM4-02: Cael cyllid ychwanegol i'r sefydliad 131
PW3-27: Recriwtio, dethol a chadw cydweithwyr 138
LM 508: Arfarnu perfformiad staff 146

**Adran 4: Gwybodaeth am asesu a sicrhau ansawdd 151**

Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn 154
Strategaethau ac Egwyddorion Asesu 154
Egwyddorion Asesu Sgiliau Gofal a Datblygu 155
Strategaeth Asesu 155
Gofynion staffio 156

**Adran 5: Dogfennau ac adnoddau 157**

Dogfennau defnyddiol 158
Dogfennau gorfodol 158
Canllawiau diogelu 158
Adnoddau 159
Gofynion o ran adnoddau 159
Adnoddau dysgu 159

# Crynodeb o’r newidiadau

**Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r newidiadau i fanyleb y cymhwyster hwn.**

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| v5.0 | Ionawr 2018 | Geiriad ychwanegol i'r adran **Rheolau cyfuno** i ddarparu eglurder ynghylch y nifer lleiaf o gredydau a'r unedau sydd ar gael. |
| v6.0 | Mehefin 2018 | Ychwanegu adrannau Cyfleoedd cyfartal, Amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant, Gofynion adnoddau ac Adnoddau dysgu.<br>Diweddaru dolenni gwefan i QualHub. |
| v6.1 | Ebrill 2019 | Ychwanegu Canllawiau diogelu . |
| v6.2 | Chwefror 2020 | Ychwanegu adran Adnoddau. |
| v6.3 | Mehefin 2022 | Ychwanegu gwybodaeth bellach at yr adran dulliau asesu a argymhellir – oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg.<br><br>Ychwanegu gwybodaeth at yr adran canllawiau/argymhellion mynediad i roi gwybod bod cofrestriad yn ôl disgresiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid gwneud hynny ar y Porth.<br><br>Ychwanegu gwybodaeth at yr adran adnoddau dysgu am sut i gael gafael ar y llawlyfrau cymorth. |
| v6.4 | Medi 2023 | Mân newidiadau fformatio trwy'r cyfan.<br><br>Newid i eiriad meini prawf asesu 1.3 yn uned PW5-06: Datblygu a gweithredu gweithdrefnau i ddiogelu plant a phobl ifanc.<br><br>Dileu cyfeiriadau at SkillsActive trwy’r cyfan a safonau galwedigaethol cenedlaethol (NOS) sydd wedi dyddio.<br><br>NOS wedi’u diweddaru.<br><br>Ychwanegu dull asesu i dabl crynodeb o’r cymhwyster. |

# Adran 1: Cyflwyniad cyffredinol

## Gwybodaeth am y Fanyleb Cymhwyster

Mae'r Fanyleb Cymhwyster yn cynnwys yr holl unedau gorfodol a'r asesiadau y bydd yn rhaid i chi eu cwblhau fel rhan o'r cymhwyster. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Tiwtoriaid a/neu Aseswyr.

## Sut mae'r cymhwyster yn gweithio

Mae nifer o unedau'n ffurfio'r cymhwyster, a phob un yn cynrychioli cam dysgu bach. Mae hyn yn golygu bod modd cwblhau'r cymhwyster yn ôl eich pwysau eich hunan.

Gellir 'bancio'r' holl unedau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i chi ail-astudio'r unedau hynny os oes arnoch eisiau cymryd cymhwyster arall sy'n cynnwys yr un unedau.

Mae gan bob uned:

- **lefel** – yn dangos pa mor anodd ydyw
- **gwerth credyd** – mae un credyd yn cynrychioli tua 10 awr o waith
- **nod yr uned** – yn esbonio beth y mae'r uned yn ymdrin ag ef
- **canlyniadau dysgu** – yn ymdrin â'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud (sgiliau) neu'r hyn y mae'n rhaid i chi ei ddeall (gwybodaeth)
- **meini prawf asesu** – beth y mae'n rhaid i chi ei ddangos (tystiolaeth)

Mae pob canlyniad dysgu'n gysylltiedig â nifer o feini prawf asesu. Mae'n rhaid darparu tystiolaeth o'r holl feini prawf asesu i gyflawni'r uned.

| **Learning outcomes** The learner will: | **Assessment criteria** The learner can: | **Evidence record** e.g. page number & method | **Assessor judgement achieved** Initial and date |
|---|---|---|---|
| 1. Know substances which are commonly misused. | 1.1. List **categories** of substances which are commonly misused. | | |
| | 1.2. Identify substances which are commonly misused. | | |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster/Dysgu dan Arweiniad: Diffiniadau

Mae Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT) yn cynnwys y ddwy brif elfen isod:

- nifer yr oriau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer Dysgu dan Arweiniad
- amcangyfrif o'r oriau y bydd Dysgwr yn debygol o'u treulio'n paratoi, astudio neu ryw ffurf arall o gymryd rhan mewn dysgu neu hyfforddi, ond nid dan oruchwyliaeth uniongyrchol tiwtor neu aseswr.

Gall canolfannau benderfynu sut i glustnodi Cyfanswm Amser y Cymhwyster ar gyfer pob uned o fewn cymhwyster.

Dysgu dan Arweiniad

- Mae Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Amser y Cymhwyster yn elfennau perthnasol i'r cymhwyster cyfan.
- Cyfeiria'r term Dysgu dan Arweiniad at yr amcangyfif o oriau dysgu ar gyfer pob uned.

## Unedau gwaharddedig, unedau cywerth ac esemptiadau

Gall y cymhwyster gynnwys unedau gwaharddedig, unedau cyfwerth neu esemptiadau. Cyfeirir at rhain yn y crynodebau ar gyfer pob uned.

## Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Gall canolfannau gydnabod profiad o ddysgu blaenorol fel a fynnant os ydyn nhw'n fodlon bod y dystiolaeth sy'n cael ei chynnig yn cydymffurfio â gofynion y cymhwyster. Os yw'r fath gydnabyddiaeth i'w defnyddio ar raddfa eang (ar gyfer uned gyfan neu fwy), rhaid ceisio cyngor oddi wrth eich Ymgynghorydd Ansawdd Allanol.

## Deall canlyniadau dysgu

Mae yna ddau brif fath o ganlyniadau dysgu:

- **Sgiliau** y gellir eu perfformio
- **Gwybodaeth** y gellir ei dysgu.

Weithiau, maent yn ymdrin â chyfuniad o'r ddau.

**Canlyniadau dysgu seiliedig ar gymhwysedd/sgiliau:**

- Yn dechrau gyda 'Gallu'. Mae'r meini prawf asesu fel rheol yn dangos bod modd arsylwi ar y dystiolaeth o fewn amgylchedd gwaith go iawn. Mae'n bosibl defnyddio dulliau eraill, gweler y siart yn yr adran Canllawiau Asesu. Mae'n rhaid seilio'r holl dystiolaeth ar brofiad y dysgwr mewn amgylchedd gwaith go iawn.

**Canlyniadau dysgu seiliedig ar wybodaeth:**

- Yn dechrau gyda 'Gwybod', 'Deall' neu 'Gwybod sut i'.

Er hwylustod i chi, mae unedau Gwybodaeth yn unig yn cael eu dynodi gan seren yn y Cofnod Cyflawni Uned ac ar frig yr unedau.

Os nad oes seren yn dynodi uned, mae'n uned sgiliau neu'n uned sy'n cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth.

## Gwneud defnydd o’n gwefannau

Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o'n manyleb cymhwyster a'n dogfennau ategol ar wefan NCFE. Er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf, gwiriwch rif y fersiwn a'r dyddiad ar waelod y dudalen yn erbyn y fanyleb cymhwyster.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein holl gymhwyster, gan gynnwys taflen ffeithiau cymhwyster a deunyddiau cymorth eraill.

## Y Wefan Gyhoeddus

Cyfeiriad ein gwefan gyhoeddus yw www.ncfe.org.uk. Mae’r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ein holl gymwysterau, sy’n cynnwys:

- Ffeithiau Allweddol
- Manylebau Cymhwyster
- Deunyddiau cymorth eraill

Mae yna hefyd rai dogfennau allweddol eraill y gellir cyfeirio atynt yn ôl yr angen. Er enghraifft:

- Trefn Gwyno
- Proses Apelio
- Datganiad Amrywiaeth

Mae hefyd yn cyhoeddi’r newyddion diweddaraf yn rheolaidd ac yn cynnwys astudiaethau achos a dolenni i wefannau cyrff eraill a allai fod o ddiddordeb.

## Gwefan Ddiogel i Ganolfannau

Gellir canfod gwybodaeth fwy penodol i gefnogi gwaith Canolfannau ar ein gwefan ddiogel.

I gael mynediad i'r wefan ddiogel, cliciwch ar y ddolen ar wefan NCFE a mewngofnodwch gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd gan weinyddwr y Ganolfan.

## Llên-ladrad

Mae llên-ladrad yn golygu hawlio mai eich gwaith chi yw rhywbeth sydd wedi'i gopïo o rywun neu rywle arall. Mae'n rhaid mai eich gwaith chi yw'r holl waith yr ydych yn ei gyflwyno, ac nid gwaith sydd wedi'i gopïo o rywun arall oni bai eich bod wedi cyfeirio'n glir at ffynhonnell eich gwybodaeth. Bydd eich Tiwtor yn esbonio sut i ddarparu rhestr o gyfeiriadau sy'n dangos o ble gawsoch chi eich gwybodaeth. Os yw eich Canolfan yn darganfod tystiolaeth bod eich gwaith wedi'i gopïo o rywle arall, ni fydd yn cael ei dderbyn ac mae'n bosibl y byddwch yn wynebu trefn ddisgyblu eich Canolfan neu ein trefn ddisgyblu ni. Os yw hyn yn digwydd, bydd yn rhaid i chi gyflwyno darn ychwanegol o waith ar gyfer asesiad. Byddwn yn derbyn gwybodaeth am bob achos o lên-ladrad.

**Prynu a gwerthu aseiniadau**

Ni chaniateir i unrhyw un gynnig prynu neu werthu aseiniadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd fel eBay. Os yw hyn yn digwydd, mae'r hawl gennym i wrthod unrhyw geisiadau pellach y byddwch yn eu cyflwyno.

## Cyfleoedd cyfartal

Rydym yn llwyr gefnogi egwyddor cyfle cyfartal ac yn gwrthwynebu pob gwahaniaethu anghyfreithlon neu annheg ar sail gallu, oedran, lliw, diwylliant, anabledd, amgylchiadau domestig, statws cyflogaeth, rhywedd, statws priodasol, cenedligrwydd, cyfeiriadedd gwleidyddol, tarddiad hiliol, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir cymdeithasol. Ein nod yw sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo a bod gwahaniaethu anghyfreithlon neu annheg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael ei ddileu o ran arferion cyflogaeth ac o ran mynediad at y cymwysterau. Mae copi o'n polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb ar gael ar wefan NCFE.

## Amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant

Mae ein cymwysterau a'n hasesiadau cysylltiedig wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn anwahaniaethol. Rydym yn gwerthuso ac yn monitro'r 6 llinyn amrywiaeth yn rheolaidd (rhywedd, oedran, hil, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol) trwy gydol y broses ddatblygu yn ogystal â phrosesau cyflwyno, cymedroli allanol a threfniadau asesu allanol cymwysterau byw. Mae hyn yn sicrhau bod agweddau cadarnhaol a chysylltiadau da yn cael eu hyrwyddo, na ddefnyddir iaith wahaniaethol a bod ein gweithdrefnau asesu yn gwbl gynhwysol.

Dylai dysgwyr sydd angen addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig drafod eu gofynion â'u Tiwtor, a ddylai gyfeirio at ein polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig i gael arweiniad. I gael mwy o wybodaeth am y polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig gweler ein gwefan cymwysterau pwrpasol www.ncfe.co.uk.

# Adran 2: Gwybodaeth am y cymhwyster hwn

# Crynodeb o'r cymhwyster

<table>
<tr><td>Teitl</td><td colspan="4">NCFE CACHE Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru)</td></tr>
<tr><td>Rhif y cymhwyster</td><td colspan="4">601/5370/2</td></tr>
<tr><td>Nod</td><td colspan="4">Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio ar Lefel 3 (heb oruchwyliaeth) o leiaf mewn amrywiaeth o leoliadau Gwaith Chwarae, sy'n dymuno datblygu sgiliau newydd a symud ymlaen â'u gyrfa i lefel uwch mewn lleoliadau Gwaith Chwarae.</td></tr>
<tr><td>Pwrpas<br><br>Cod Ofqual a disgrifiad (lle'n briodol)</td><td colspan="4">D. Cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a/neu 'hawl i ymarfer'<br><br>D1 Cadarnhau cymhwysedd mewn rôl alwedigaethol i'r gofynion angenrheidiol</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Amser y Cymhwyster (oriau)</td><td colspan="4">750</td></tr>
<tr><td>Oriau dysgu dan arweiniad</td><td>Lleiaf</td><td>512</td><td>Mwyaf</td><td>612</td></tr>
<tr><td>Gwerth credyd</td><td>75</td><td colspan="2">Isafswm credyd ar/uwchben Lefel</td><td>38</td></tr>
<tr><td>Isafswm oedran y dysgwr</td><td colspan="4">19</td></tr>
<tr><td>Gofynion/argymhellion o ran amgylchedd gwaith real</td><td colspan="4">Amh – Bydd dysgwyr eisoes mewn cyflogaeth.</td></tr>
<tr><td>Rheolau cyfuno</td><td colspan="4">Rhaid i ddysgwyr gyflawni 75 credyd i ennill y cymhwyster hwn.<br><br>Rhaid cyflawni 38 credyd ar/neu'n uwch na Lefel 5.<br><br>Rhaid i'r dysgwr gwblhau'r 9 uned orfodol a dewis un o'r unedau Gorfodol Dewisol yn seiliedig ar y llwybr o'u dewis.<br><br>Os dewisir uned H/502/9168, rhaid i'r dysgwr gwblhau'r 12 credyd sy'n weddill o 2 uned o leiaf yn yr<br><br>• Unedau Dewisol: Ymarferydd /neu<br>• Unedau Dewisol: Ymarferydd a Rheolwr.<br><br>Os dewisir uned J/502/9194, rhaid i'r dysgwr gwblhau'r 14 credyd sy'n weddill o 2 uned o leiaf yn yr<br>• Unedau Dewisol: Rheolwr /neu</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Unedau Dewisol: Ymarferydd a Rheolwr. |
| **Dilyniant** gan gynnwys Swyddi (lle bo hynny'n berthnasol) | Rhagwelir y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen o Ymarferydd Gwaith Chwarae Uwch i statws Rheolwr trwy'r cymhwyster hwn. Rhagwelir hefyd y bydd yn darparu dilyniant i Radd Sylfaen. |
| **Dull asesu** | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol. |
| **Dulliau asesu a argymhellir** | Portffolio o Dystiolaeth<br><br>Oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg. |
| **System raddio** | Wedi Cyflawni/Heb Gyflawni Hyd Yma |
| **Faint o amser a gymerir i'w gwblhau?** | Fel arfer mae'n bosibl i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster hwn mewn blwyddyn. |
| **Gofynion/argymhellion mynediad** | Rhaid i ddysgwyr fod yn 19 oed o leiaf a dylent fod yn gweithio ar o leiaf Lefel 3 mewn lleoliad Gwaith Chwarae.<br><br>Mae cofrestru yn ôl disgresiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid ei wneud ar y Porth. |
| **Gwybodaeth am y cymhwyster hwn** | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 601/5370/2.<br><br>**Llwybrau o fewn y cymhwyster hwn**<br><br>Wrth gofrestru dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, dylai canolfannau ddefnyddio'r rhif cymhwyster CACHE ac yna'r cod llwybr perthnasol, er enghraifft (601/5370/2/PRAC). Gan y bydd y llwybr a ddewiswyd yn ymddangos ar y dystysgrif, mae'n bwysig bod Tiwtoriaid yn egluro i ddysgwyr yr opsiwn penodol y byddant yn cael eu cofrestru ar ei gyfer. Rhaid i ganolfannau ystyried yn ofalus pa opsiwn y maent am gofrestru'r dysgwr arno, gan y bydd y ffi gofrestru yn cael ei chodi ar bob opsiwn. Mae'r llwybrau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:<br><br>• Ymarferydd (PRAC)<br>• Rheolwr (MAN).<br><br>Wrth hawlio tystysgrif y dysgwr, defnyddiwch rif cyfeirnod uned Ofqual (e.e. J/508/4583) i nodi pa unedau y mae'r dysgwyr wedi'u cyflawni. Mae'r unedau o fewn y cymwysterau hyn yn croesi drosodd i'r gwahanol lwybrau sydd ar gael ac felly nid ydynt yn dilyn rhifau uned safonol Uned 01, Uned 02 ac ati. |

## Esboniad o dermau a ddefnyddir yn Lefel 5: (nid yw'r berfau i gyd yn cael eu defnyddio yn y cymhwyster hwn)

| | |
|---|---|
| **Actio (fel model rôl)** | Gweithredu fel model mewn rôl ymddygiadol neu gymdeithasol benodol i berson arall ei efelychu. |
| **Addasu (dulliau)** | Addasu, newid, gwneud yn addas i'r diben. |
| **Glynu wrth** | Dilyn, cadw, cynnal, parchu, cadw at, rhoi cefnogaeth i, e.e. glynu wrth god ymarfer llym. |
| **Dadansoddi** | Rhannu'r pwnc neu sefyllfaoedd cymhleth yn rannau ar wahân ac archwilio pob rhan yn fanwl, nodi'r prif faterion a dangos sut mae'r prif syniadau'n gysylltiedig ag ymarfer a pham eu bod yn bwysig (gall cyfeiriad at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r dadansoddiad). |
| **Cymhwyso (safonau)** | Egluro sut y gellir cysylltu gwybodaeth gyfredol, arferion, safonau ac ati i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Canfod** | Darganfod i sicrwydd. |
| **Asesu** | Amcangyfrif a gwneud dyfarniad. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl, gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymharu a chyferbynnu** | Archwilio'r pynciau yn fanwl, gan edrych ar debygrwydd a gwahaniaethau, a gwahaniaethu rhwng gwahaniaethau trawiadol (nodi). |
| **Adolygu'n feirniadol** | Adolygu, dadlau a barnu teilyngdod. |
| **Egluro** | Esbonio'r wybodaeth mewn ffordd glir, gryno, gan ddangos dyfnder a dealltwriaeth. |
| **Dadansoddi'n feirniadol** | Mae hwn yn ddatblygiad o 'ddadansoddi' sy'n archwilio cyfyngiadau yn ogystal ag agweddau cadarnhaol ar y prif syniadau er mwyn ffurfio barn resymol. |
| **Gwerthuso'n feirniadol** | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn a/neu debygrwydd a gwahaniaeth; barnu'r dystiolaeth a thrafod dilysrwydd honiadau o'r safbwyntiau gwrthwynebol a llunio dadl argyhoeddiadol i gefnogi'r casgliad neu'r dyfarniad. |
| **Cydweithio (L7)** | Gweithio ar y cyd. |
| **Disgrifio** | Darparu ystod estynedig o wybodaeth fanwl am y pwnc neu'r eitem mewn ffordd resymegol. |

| | |
|---|---|
| **Datblygu** | Nodi, adeiladu ac ymestyn pwnc, cynllun neu syniad. |
| **Gwahaniaethu rhwng** | Trafod gwahaniaethau a nodwyd rhwng mwy nag un eitem, cynnyrch, gwrthrych neu weithgaredd. |
| **Arddangos** | Cymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol a/neu dangos dealltwriaeth o'r pwnc. |
| **Esbonio** | Defnyddio rhesymu i gyfrif am sut mae rhywbeth neu i ddangos dealltwriaeth o gysyniadau gwaelodol (gallai'r ymatebion gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau). |
| **Gwerthuso** | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn a/neu debygrwydd a gwahaniaethau; barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a gwneud casgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol; cymhwyso ymchwil neu ddamcaniaethau cyfredol i gefnogi'r gwerthusiad pan fo'n berthnasol. |
| **Sefydlu (L5 a L6)** | Sefydlu'n barhaol; derbyn yn gyffredinol; gosod y tu hwnt i amheuaeth. |
| **Grymuso** | Arfogi neu gyflenwi gyda gallu; galluogi neu ganiatáu. |
| **Galluogi** | Cyflenwi gyda'r modd, gwybodaeth neu gyfle. |
| **Hwyluso (L6)** | Gwneud yn haws; helpu i wneud cynnydd. |
| **Llunio (L5, L6 a L7)** | Tynnu at ei gilydd; mewn ffordd resymegol; mynegi mewn termau neu gysyniadau systematig. |
| **Rhoi adborth adeiladol** | Darparu sylwadau sy'n gwella neu'n datblygu; rhoi cymorth. |
| **Nodi** | Canfod tarddiad, natur neu nodweddion diffiniol. |
| **Gweithredu (L5 a L6)** | Rhoi ar waith yn ymarferol; cyflawni. |
| **Ymchwilio** | Archwiliad neu astudiaeth fanwl; holi'n systematig. |
| **Ymyrryd yn effeithiol** | Newid canlyniad. |
| **Cychwyn** | Cychwyn/dechrau proses. |
| **Cyfiawnhau** | Rhoi esboniad cynhwysfawr o'r rhesymau dros weithredoedd a/neu benderfyniadau. |
| **Monitro** | Cadw gwyliadwriaeth rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| **Mentora** | Gwasanaethu fel cwnselydd neu athro dibynadwy i berson arall; helpu eraill i lwyddo. |
| **Negodi** | Trafod gyda golwg ar ddod o hyd i setliad y cytunir arno. |
| **Datrys** | Datrys; setlo; esbonio. |
| **Ymchwilio (L5 a L6)** | Astudiaeth fanwl o bwnc i ddarganfod gwybodaeth newydd neu i ddod i ddeall gwybodaeth newydd. |
| **Adolygu** | Ailymweld a barnu teilyngdod. |
| **Cydnabod** | Cydnabod dilysrwydd o. |
| **Cynrychioli safbwyntiau** | Gweithredu fel eiriolwr; siarad, pledio neu ddadlau o blaid. |
| **Adolygu a diwygio** | Ailymweld, barnu teilyngdod, a gwneud argymhellion ar gyfer newid. |
| **Myfyrio ar** | Ymgynghori â’r hunan, gan gydnabod goblygiadau arfer cyfredol gyda'r bwriad o newid arferion yn y dyfodol. |
| **Argymell** | Ailymweld a barnu teilyngdod; cymeradwyo cynnig neu weithred; eirioli o blaid. |
| **Crynhoi** | Dewis y prif syniadau, y ddadl neu'r ffeithiau a'u cyflwyno mewn ffordd fanwl a chryno. |
| **Cyfeirio** | Dangos y ffordd; nodi. |
| **Cefnogi** | Cryfhau, cefnogi neu annog; ategu; rhoi mwy o hygrededd i. |
| **Gosod amcanion (L6)** | Nodi'r canlyniadau sydd eu hangen. |
| **Sicrhau** | Gwneud yn ddiogel; cael (gwybodaeth neu dystiolaeth). |
| **Triongli (L7)** | Adnabod tair agwedd i sicrhau dilysrwydd. |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | Gweithio mewn partneriaeth â dau berson neu fwy (gall hyn gynnwys rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a/neu ofalwyr) |

# Adran 3: Unedau

## Log cyflawni unedau – Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch

### Unedau gorfodol

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A/502/9158 | PW4-01 | Deall yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n sail i ddarpariaeth gwaith chwarae | Gwybodaeth | 4 | 9 | 60 | 24 | |
| R/502/9165 | PW4-02 | Deall sut i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 4 | 6 | 35 | 27 | |
| Y/502/9166 | PW5-01 | Deall sut i ddatblygu, rheoli ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae | Gwybodaeth | 5 | 7 | 45 | 31 | |
| D/502/9167 | PW4-03 | Deall sut i ddatblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 4 | 3 | 21 | 35 | |
| A/502/9192 | PW4-04 | Sefydlu a datblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc | Sgiliau | 4 | 5 | 30 | 39 | |

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J/502/9163 | PW5-06 | Datblygu a rhoi gweithdrefnau ar waith i ddiogelu plant a phobl ifanc | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 8 | 60 | 51 | |
| Y/602/3183 | SCH 53 | Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 4 | 34 | 59 | |
| K/502/9169 | PW5-03 | Gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae | Sgiliau | 5 | 7 | 50 | 63 | |
| J/504/8070 | AP 01 | Defnyddio dull myfyriol i wella datblygiad proffesiynol | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 6 | 47 | 69 | |

## Unedau gorfodol dewisol

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H/502/9168 | PW5-02 | Deall sut i ymchwilio, dylunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 5 | 8 | 50 | 71 | Ymarferydd |
| J/502/9194 | PW5-04 | Datblygu, rheoli ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae | Sgiliau | 5 | 6 | 40 | 77 | Rheolwr |

## Unedau dewisol: Ymarferydd

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F/502/9159 | ALLM4-01 | Darparu gwybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau | Gwybodaeth/ Sgiliau | 4 | 6 | 40 | 83 | |
| L/602/1835 | PW3-20 | Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd mewn amgylchedd chwarae | Gwybodaeth/ Sgiliau | 3 | 10 | 65 | 95 | |

## Unedau dewisol: Rheolwr

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H/503/6590 | ALLM5-04 | Rheoli cyllid yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 5 | 30 | 117 | |
| A/502/9161 | ALLM5-02 | Darparu arweinyddiaeth yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 9 | 60 | 155 | |
| D/502/7970 | ALLM4-02 | Cael cyllid ychwanegol i'r sefydliad | Gwybodaeth/ Sgiliau | 4 | 7 | 50 | 131 | |
| H/602/1842 | PW3-27 | Recriwtio, dethol a chadw cydweithwyr | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 12 | 85 | 169 | |

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J/504/2219 | LM 508 | Arfarnu perfformiad staff | Gwybodaeth/ Sgiliau | 5 | 5 | 32 | 179 | |
| H/502/9168 | PW5-02 | Deall sut i ymchwilio, dylunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 5 | 8 | 50 | 71 | |

## Unedau dewisol: Ymarferydd a Rheolwr

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F/502/9193 | PW5-05 | Ymchwilio, dylunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig plant a phobl ifanc | Sgiliau | 5 | 6 | 40 | 105 | |
| L/502/9164 | PW4-06 | Cefnogi eraill i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu amgylcheddau chwarae | Gwybodaeth/ Sgiliau | 4 | 4 | 21 | 89 | |
| K/602/1843 | PW3-28 | Darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr | Gwybodaeth/ Sgiliau | 4 | 11 | 85 | 119 | |

| Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Gwerth | Oriau | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M/602/1844 | PW3-29 | Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain | Gwybodaeth/ Sgiliau | 4 | 14 | 95 | 131 | |
| A/601/1429 | SHC 32 | Cymryd rhan mewn datblygiad personol mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol neu blant a phobl ifanc | Gwybodaeth/ Sgiliau | 3 | 3 | 10 | 149. | |

## Cynllun yr unedau

| **Mae'r deunydd canlynol wedi'i ddarparu ar gyfer pob uned:** | |
|---|---|
| Teitl yr uned | Darparu esboniad eglur, cryno o gynnwys yr uned. |
| Rhif cyfeirnod cynllun yr uned | Y rhif unigryw a neilltuwyd gan berchennog yr uned. |
| Cyfeirnod yr uned | Y rhif unigryw a roddwyd i bob uned adeg cymeradwyo gan Ofqual. |
| Lefel yr uned | Dynodi lefel yr uned o fewn y fframwaith. |
| Gwerth credyd yr uned | Y gwerth a roddwyd i'r uned yn seiliedig ar yr amser dysgu disgwyliedig i ddysgwr cyffredin. |
| Nod yr uned | Darparu amlinelliad byr o gynnwys yr uned. |
| Canlyniad dysgu | Datganiad o'r hyn y bydd dysgwr yn ei wybod, yn deall neu'n gallu'i wneud, o ganlyniad i broses ddysgu. |
| Meini prawf asesu | Disgrifiad o'r gofynion y mae'n rhaid i'r dysgwr eu gwneud i arddangos bod canlyniad dysgu wedi'i gyflawni. |
| Gwybodaeth ychwanegol* | Mae'r bocs hwn yn nodi'r strategaeth asesu sy'n berthnasol i'r uned. Lle bo hynny'n ofynnol, bydd hwn yn cynnwys canllawiau penodol ynghylch asesu'r uned a gwybodaeth i gefnogi'r dysgwr wrth iddo gyflawni. |
| Canllawiau asesu uned* | Unrhyw ganllawiau ychwanegol a ddarperir i gefnogi asesiad yr uned. |
| Oriau dysgu dan arweiniad yr uned | Y nifer oriau cyfartalog o amser astudio neu asesu dan arweiniad neu dan gyfarwyddyd sy'n ofynnol i gyflawni cymhwyster neu uned o gymhwyster. |
| Tasg asesu (a osodir gennym ni)* | Senario neu agwedd ar rôl y gwaith a fydd yn cefnogi'r dysgwr i gynhyrchu'r gofynion o ran tystiolaeth i ganlyniadau dysgu gwybodaeth yn unig. |

** Ni fydd Gwybodaeth Ychwanegol, Canllawiau Asesu Uned a Thasgau Asesu* ar gael i bob uned.

**D.S.:** Gellir cysylltu'r geiriau sydd mewn print trwm yn y canlyniadau dysgu, y meini prawf asesu a'r tasgau asesu gyda'r adran canllawiau ychwanegol lle ceir gwybodaeth bellach amdanynt.

## PW4-01: Deall yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n sail i ddarpariaeth gwaith chwarae

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod yr uned** | A/502/9158 | **Lefel yr uned** | 4 |
| **Gwerth credyd** | 9 | **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 60 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar Weithiwr Chwarae yn ymwneud ag egwyddorion a damcaniaethau gwaith chwarae. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw’r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae’r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall rôl a gwerth chwarae i blant a phobl ifanc | 1.1. Esbonio'r angen i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwarae hunangyfeiriedig gaiff ei ddewis yn rhydd, a’i gymell yn gynhenid. | | |
| | 1.2. Gwerthuso manteision tymor byr a hirdymor chwarae i blant a phobl ifanc. | | |
| | 1.3. Gwerthuso'r hyn a olygir gan chwarae gaiff 'ei ddewis yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol a’i gymell yn gynhenid' yng nghyd-destun darpariaeth chwarae wedi'i drefnu. | | |
| | 1.4. Adolygu cyfraniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas â darpariaeth chwarae. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 2. Deall y damcaniaethau sy'n sail i ddarpariaeth gwaith chwarae effeithiol. | 2.1. Esbonio'r cyd-destun ar gyfer tybiaethau, gwerthoedd ac egwyddorion a'u hesblygiad. | | |
| | 2.2. Cymharu'n feirniadol ddamcaniaethau a modelau gwaith chwarae gwahanol. | | |
| | 2.3. Esbonio cyfraniad disgyblaethau eraill, megis seicoleg, bioleg a chymdeithaseg i'n dealltwriaeth o chwarae plant a phobl ifanc. | | |
| | 2.4. Gwerthuso cysyniadau sy'n gwrthdaro o ran darpariaeth chwarae, er enghraifft cymdeithasoli, addysg, amddiffyn ac iawndal. | | |
| | 2.5. Cymharu cryfderau a gwendidau gwahanol strategaethau i reoli risg mewn perthynas â chwarae plant a phobl ifanc. | | |
| 3. Deall rôl y sefydliad gwaith chwarae wrth gefnogi chwarae plant a phobl ifanc. | 3.1. Esbonio pwysigrwydd fframwaith sefydliadol ar gyfer cefnogi chwarae plant a phobl ifanc. | | |
| | 3.2. Esbonio sut y dylai damcaniaeth gwaith chwarae fod yn sail i fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc. | | |
| | 3.3. Dadansoddi rolau gwahanol sefydliadau yng nghyd-destun gwasanaethau integredig a'u heffaith ar ddarpariaeth chwarae. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 3.4. Egluro rôl y sefydliad gwaith chwarae fel eiriolwr dros chwarae. | | |
| | 3.5. Cymharu'n feirniadol y gwahanol ddulliau y gall sefydliad gwaith chwarae eu defnyddio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc. | | |
| | 3.6. Gwerthuso sut y dylai sefydliad gwaith chwarae gydbwyso anghenion a hawliau plant a phobl ifanc unigol ag anghenion a hawliau pobl eraill. | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** PW4-01
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

| **Canllawiau ar gyfer datblygu trefniadau asesu i'r uned:** | |
|---|---|
| Canllawiau asesu uned – a ddarperir gennym ni | Bydd tystiolaeth bod y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu yn yr uned hon wedi'u cwblhau yn cael ei darparu'n rhannol trwy rôl swydd y dysgwr. O'r herwydd, nid oes angen tasg asesu ar gyfer yr uned hon. |

## PW4-02: Deall sut i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod yr uned** | R/502/9165 | **Lefel yr uned** | 4 |
| **Gwerth credyd** | 6 | **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 35 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar weithiwr chwarae i weithio gydag eraill i ddatblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer darpariaeth chwarae. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall pwysigrwydd fframwaith sefydliadol ar gyfer cefnogi darpariaeth chwarae plant a phobl ifanc. | 1.1. Esbonio pa mor bwysig i sefydliadau gwaith chwarae yw bod â gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau. | | |
| | 1.2. Gwerthuso sut y gall gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol gynnal hawliau a chyfleoedd plant a phobl ifanc i chwarae. | | |
| | 1.3. Esbonio pwysigrwydd datblygu polisi ac ymarfer gwaith chwarae i sefydliad gwaith chwarae. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 2. Deall sut i ymchwilio i'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol a moesegol y mae sefydliad gwaith chwarae yn gweithredu ynddo. | 2.1. Esbonio pam ei bod yn bwysig i sefydliadau gwaith chwarae ddeall y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol a moesegol y maent yn gweithredu ynddo. | | |
| | 2.2. Esbonio sut i gael mynediad at ffynonellau gwybodaeth perthnasol ar y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol a moesegol y mae sefydliad gwaith chwarae yn gweithredu ynddo. | | |
| | 2.3. Esbonio sut i ddefnyddio gwybodaeth ar y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol a moesegol y mae sefydliad gwaith chwarae yn gweithredu ynddo. | | |
| 3. Deall sut i ymchwilio i agweddau ar ymarfer gwaith chwarae sy'n berthnasol i ddarpariaeth sefydliad. | 3.1. Esbonio pam ei bod yn bwysig i sefydliadau gwaith chwarae adolygu'n gyson ymarfer gwaith chwarae mewn perthynas â'r cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 3.2. Esbonio sut i gael mynediad at ffynonellau gwybodaeth perthnasol ar ymarfer gwaith chwarae, gan gynnwys strategaethau sy'n ymwneud â:<br>• ymyrraeth oedolion<br>• gofal a diogelu<br>• cynhwysiant<br>• rheoli risg<br>• rheoli ymddygiad<br>• ar gyfer rheoli trawsnewidiadau. | | |
| | 3.3. Esbonio sut i ddefnyddio gwybodaeth am ymarfer gwaith chwarae cyfoes mewn perthynas â'r cyd-destun y mae sefydliad gwaith chwarae yn gweithredu ynddo. | | |
| 4. Deall sut i weithio gyda chydweithwyr, plant, pobl ifanc a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu polisi ac ymarfer gwaith chwarae. | 4.1. Esbonio pwysigrwydd gweithio gyda chydweithwyr, plant, pobl ifanc a phartneriaid allweddol eraill, wrth ddatblygu polisïau ac arferion gwaith chwarae. | | |
| | 4.2. Esbonio sut i adnabod partneriaid allweddol i weithio gyda nhw ar ddatblygu polisïau ac arferion gwaith chwarae. | | |
| | 4.3. Esbonio sut i adolygu fframwaith presennol sefydliad gwaith chwarae yng ngoleuni canfyddiadau ymchwil. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 4.4. Gwerthuso gwahanol ddulliau o ymgynghori â chydweithwyr, plant, pobl ifanc a phartneriaid allweddol eraill ar ddatblygu polisi ac ymarfer gwaith chwarae. | | |
| | 4.5. Gwerthuso gwahanol ddulliau o ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer o fewn sefydliad gwaith chwarae. | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** PW4-02
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) | SKAPW56 Cyfrannu at ddatblygu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau yn y lleoliad gwaith chwarae |
| **Canllawiau ar gyfer datblygu trefniadau asesu i'r uned:** | |
| Canllawiau asesu uned – a ddarperir gennym ni | Bydd tystiolaeth bod y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu yn yr uned hon wedi'u cwblhau yn cael ei darparu'n rhannol trwy rôl swydd y dysgwr. O'r herwydd, nid oes angen tasg asesu ar gyfer yr uned. |

# PW5-01: Deall sut i ddatblygu, rheoli ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod yr uned** | Y/502/9166 | **Lefel yr uned** | 5 |
| **Gwerth credyd** | 7 | **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 45 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar Weithiwr Chwarae i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw’r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae’r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall sut i ddatblygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae. | 1.1. Crynhoi egwyddorion a dulliau o gynllunio gweithredol mewn cyd-destun gwaith chwarae. | | |
| | 1.2. Esbonio sut i nodi targedau a chanlyniadau allweddol ar gyfer cynllunio gweithredol gwaith chwarae. | | |
| | 1.3. Crynhoi egwyddorion a dulliau o negodi cynlluniau gweithredol gyda chydweithwyr. | | |
| | 1.4. Esbonio sut i nodi, meintioli a dyrannu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynllun gweithredol gwaith chwarae. | | |
| | 1.5. Esbonio sut i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau cynhwysiant plant sy'n draddodiadol yn profi rhwystrau i ddarpariaeth chwarae. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 1.6. Crynhoi egwyddorion a dulliau ymgynghori o fewn sefydliad gwaith chwarae. | | |
| 2. Deall sut i reoli newid gweithredol mewn darpariaeth gwaith chwarae. | 2.1. Crynhoi egwyddorion a dulliau o reoli newid. | | |
| | 2.2. Esbonio sut i gyfathrebu materion sy'n ymwneud â newid i gydweithwyr mewn sefydliad gwaith chwarae. | | |
| | 2.3. Esbonio pwysigrwydd grymuso timau ac unigolion i gyfrannu at y broses newid. | | |
| | 2.4. Disgrifio'r mathau o rwystrau i newid a allai ddigwydd mewn sefydliad gwaith chwarae. | | |
| | 2.5. Egluro strategaethau y gellir eu defnyddio i oresgyn rhwystrau i newid o fewn sefydliad gwaith chwarae. | | |
| | 2.6. Esbonio'r mathau o gymorth y gallai fod eu hangen ar gydweithwyr mewn sefydliad gwaith chwarae yn ystod cyfnodau o newid. | | |
| 3. Deall sut i weithredu gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol o fewn y cynllun gweithredol. | 3.1. Esbonio pwysigrwydd cyfathrebu polisïau, gweithdrefnau a gwerthoedd i gydweithwyr mewn sefydliad gwaith chwarae. | | |
| | 3.2. Esbonio sut i sicrhau bod cydweithwyr yn gallu gweithredu polisïau, gweithdrefnau a gwerthoedd mewn sefydliad gwaith chwarae. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 3.3. Esbonio'r mathau o ymddygiad y dylid eu modelu i gefnogi polisïau a gwerthoedd gwaith chwarae. | | |
| | 3.4. Disgrifio'r mathau o eiriau, ymddygiad a gweithredoedd a fyddai'n mynd yn groes i bolisïau a gwerthoedd gwaith chwarae. | | |
| | 3.5. Esbonio sut i fynd i'r afael â geiriau, ymddygiad a gweithredoedd sy'n mynd yn groes i bolisïau a gwerthoedd gwaith chwarae. | | |
| 4. Deall sut i adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae. | 4.1. Crynhoi egwyddorion a dulliau monitro a gwerthuso mewn cyd-destun gwaith chwarae. | | |
| | 4.2. Esbonio dulliau gwahanol o ddadansoddi gwybodaeth a gasglwyd wrth fonitro cynlluniau gweithredol. | | |
| | 4.3. Esbonio sut i addasu cynlluniau gweithredol mewn ymateb i fonitro a gwerthuso. | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** PW5-01
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) | SKAPW93 Rheoli, datblygu ac adolygu darpariaeth chwarae. |
| **Canllawiau ar gyfer datblygu trefniadau asesu i'r uned:** | |
| Canllawiau asesu uned – a ddarperir gennym ni | Bydd tystiolaeth bod y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu yn yr uned hon wedi'u cwblhau yn cael ei darparu'n rhannol trwy rôl swydd y dysgwr. O'r herwydd, nid oes angen tasg asesu ar gyfer yr uned hon. |

# PW4-03: Deall sut i ddatblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc

| **Cyfeirnod yr uned** | D/502/9167 | **Lefel yr uned** | 4 |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 3 | **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 21 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar Weithiwr Chwarae i sefydlu a datblygu perthnasoedd gwaith sy'n cefnogi chwarae plant a phobl ifanc. | | |

| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
|---|---|---|---|
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall sut i sefydlu a datblygu perthynas waith gyda chydweithwyr mewn cyd-destun gwaith chwarae. | 1.1. Crynhoi'r prosesau y dylid eu dilyn i helpu cydweithwyr i addasu i'w rolau a'u cyfrifoldebau a'u datblygu. | | |
| | 1.2. Esbonio pam ei bod yn bwysig sicrhau bod pob aelod o'r tîm gwaith chwarae'n deall ac yn cefnogi rolau a chyfrifoldebau gweithwyr eraill yn y tîm. | | |
| | 1.3. Esbonio manteision cyfathrebu da mewn tîm gwaith chwarae. | | |
| | 1.4. Esbonio pam ei bod yn bwysig cynnal cytundebau gyda chydweithwyr a beth i'w wneud os nad yw hyn yn bosibl. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 1.5. Esbonio pwysigrwydd bod aelodau'r tîm yn rhoi ac yn derbyn adborth ar eu perfformiad. | | |
| | 1.6. Esbonio sut i roi a derbyn adborth ar berfformiad. | | |
| | 1.7. Dadansoddi'r mathau o wrthdaro a allai ddigwydd mewn tîm gwaith chwarae a sut i ddatrys y rhain. | | |
| 2. Deall sut i sefydlu a datblygu perthynas waith gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill mewn cyd-destun gwaith chwarae. | 2.1. Disgrifio'r mathau o weithwyr proffesiynol eraill y gallai fod angen i weithwyr chwarae gysylltu â nhw. | | |
| | 2.2. Esbonio pwysigrwydd cytuno ar rolau, cyfrifoldebau a ffiniau priodol gyda gweithwyr proffesiynol eraill. | | |
| | 2.3. Esbonio pwysigrwydd cytuno ar amcanion cyffredin, ffyrdd o weithio a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill. | | |
| | 2.4. Esbonio sut i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill mewn ffordd sy'n bodloni eu disgwyliadau. | | |
| | 2.5. Crynhoi arfer da, gwerthoedd a gofynion moesegol wrth gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill. | | |
| | 2.6. Esbonio sut i ddelio ag anghytundebau â gweithwyr proffesiynol eraill. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 3. Deall sut i hwyluso ymarfer myfyriol a rhannu gwybodaeth mewn cyd-destun gwaith chwarae. | 3.1. Esbonio pwysigrwydd fod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn rhannu gwybodaeth a phrofiad mewn perthynas ag ymarfer myfyriol. | | |
| | 3.2. Disgrifio sut i greu a gwneud defnydd o gyfleoedd i eraill drafod eu profiadau. | | |
| | 3.3. Esbonio sut i feithrin amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n hapus i fyfyrio a thrafod yr hyn y maent yn ei wneud a'r heriau y maent yn eu hwynebu. | | |
| | 3.4. Crynhoi'r sgiliau hanfodol wrth wrando ar eraill a helpu eraill i werthuso a dysgu o'u profiadau eu hunain. | | |
| | 3.5. Disgrifio'r mathau o sefyllfaoedd lle mae cydweithwyr yn wynebu heriau y mae'n rhaid eu cyfeirio at eraill. | | |
| 4. Deall gofynion cyfreithiol ac arfer da mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. | 4.1. Crynhoi'r gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n ymwneud â chyfrinachedd a datgelu gwybodaeth. | | |
| | 4.2. Disgrifio'r mathau o wybodaeth y dylid eu trin yn gyfrinachol. | | |
| | 4.3. Esbonio gyda phwy y gellir rhannu gwybodaeth gyfrinachol â hwy ac oddi wrth bwy y dylid ei diogelu. | | |

| |
|---|
| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**<br>Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| |
|---|
| **Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** PW4-03<br>Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw'r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) | SKAPW55 Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae<br><br>SKAPW77 Datblygu a gwella perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae<br><br>SKAPW99 Rheoli a gwella perthnasoedd mewnol ac allanol sy'n benodol i waith chwarae |
| **Canllawiau ar gyfer datblygu trefniadau asesu i'r uned:** | |
| Canllawiau asesu uned – a ddarperir gennym ni | Bydd tystiolaeth bod y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu yn yr uned hon wedi'u cwblhau yn cael ei darparu'n rhannol trwy rôl swydd y dysgwr. O'r herwydd, nid oes angen tasg asesu ar gyfer yr uned hon. |

## PW4-04: Sefydlu a datblygu perthnasoedd gweithio i gefnogi chwarae plant a phobl ifanc

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod yr uned** | A/502/9192 | **Lefel yr uned** | 4 |
| **Gwerth credyd** | 5 | **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 30 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu'r cymhwysedd sydd ei angen ar Weithiwr Chwarae i sefydlu a datblygu perthnasoedd gwaith sy'n cefnogi'r broses chwarae. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw’r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae’r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd galwedigaethol; felly, rhaid i dystiolaeth o gyflawni'r uned hon ddod o berfformiad cyson yn y gweithle dros gyfnod o amser.** | | | |
| 1. Gallu meithrin perthynas waith gyda chydweithwyr. | 1.1. Cychwyn perthnasoedd â chydweithwyr sy'n eu helpu i addasu i'w rolau a'u cyfrifoldebau a'u datblygu. | | |
| | 1.2. Sefydlu gyda chydweithwyr cyd-gefnogaeth ar gyfer rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. | | |
| | 1.3. Sefydlu ffyrdd o gyfathrebu â chydweithwyr. | | |
| | 1.4. Cynnal cytundebau gyda chydweithwyr. | | |
| | 1.5. Bod yn flaengar wrth adolygu trefniadau gyda chydweithwyr. | | |
| | 1.6. Gweithio gyda chydweithwyr i oresgyn gwrthdaro. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 2. Gallu meithrin perthynas waith gyda gweithwyr proffesiynol eraill. | 2.1. Sefydlu perthynas waith effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n berthnasol i'w maes gwaith eu hunain. | | |
| | 2.2. Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol gyda gweithwyr proffesiynol eraill. | | |
| | 2.3. Datblygu amcanion cyffredin a threfniadau gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill. | | |
